**Adroddiad Rhaglen Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio**

**Enw:** Kathryn Tarr

**Gwlad:** Y Deyrnas Unedig

**Pwnc:** Edrych ar hyfywedd blychau cig eidion

**Dyddiad:** 27/02/2022

## 1 Cefndir

Bûm yn gweld dwy system ffermio wahanol lle maent yn cynhyrchu cig eidion Dyfnaint Coch Rhuddem ac yn gwerthu'r rhan fwyaf o'u cynnyrch yn uniongyrchol i'r cwsmer trwy flychau cig. Roeddwn am gael gweld sut yr oedden nhw'n gwneud hyn yn llwyddiannus gan fod gennyf fuches o wartheg Coch Dyfnaint ac rwy'n gobeithio cychwyn busnes blychau cig eidion.

Rydym yn deulu sy'n ffermio yng Nghymru gyda buches fagu o wartheg Coch Dyfnaint a buches fasnachol ar wahân. Rydym yn ffermio 400 erw o laswelltir a bryniau ac yn cadw 750 o ddefaid. Mae gennyf ddiddordeb mewn dod yn fwy cynaliadwy yn y ffordd yr ydym yn ffermio a gyda fy mlychau cig byddwn yn hoffi cynhyrchu cig eidion wedi ei orffen ar laswellt, ond mae'n her gan ein bod yn prynu dwysfwyd i mewn ar hyn o bryd i ddod â'r stoc ifanc yn eu blaenau dros y gaeaf.

Roedd gen i ddiddordeb mawr mewn cael gweld sut y mae'r Northmoor Meat Company yn gorffen eu gwartheg Dyfnaint Coch Rhuddem ar laswellt, ac roeddwn am gael gweld a fyddai'n rhywbeth y gallen ni ei wneud ar ein fferm ni. Roeddwn hefyd am gael dysgu rhagor am broffidioldeb gwneud hyn gan bod rhaid cadw gwartheg Coch Dyfnaint am fwy o amser i'w gorffen, tra bod y fuches fasnachol o wartheg croes Charolais yn werthadwy iawn yn wartheg stôr yn 14 mis oed. Mae gan y teulu Florey fodel busnes da ac maent wedi bod yn magu eu buches ers amser maith gan greu llinell enynnol gref iawn. Fy nod gyda'r ymweliad hwn oedd gweld sut y mae rhywun yn llunio brand mor gryf â'r 'Northmoor Meat Company' a dysgu a yw'n ffordd broffidiol o ffermio. Rwy'n hoffi'r ffordd y maent yn gwerthu'r stori am eu fferm ac yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo eu brand. Roedd gennyf ddiddordeb hefyd mewn gweld sut yr oeddynt yn prisio eu cig eidion a beth oedd y ffordd fwyaf llwyddiannus o werthu'r blychau. Fel fferm sydd wedi arfer gwerthu gwartheg masnachol yn stôr, roedd yn bwysig i mi gael gwybod a allai gwerthu'r gwartheg Dyfnaint Coch Rhuddem traddodiadol mewn blychau cig eidion gystadlu'n ariannol â'r farchnad stôr. Gallwn werthu gwartheg croes Charolais da yn 18 mis am tua £1200. Byddai angen i mi gael pris fyddai'n adlewyrchu'r amser ychwanegol a'r costau petawn yn gorffen y gwartheg coch rhwng 24 a 30 mis.

Roedd gennyf ddiddordeb mawr hefyd mewn gweld buches Trenowin o wartheg Dyfnaint Coch Rhuddem yng Nghernyw gan eu bod wedi cychwyn siop fferm lwyddiannus i werthu eu cig eidion o safon uchel ac wedi gweld bod y galw amdano'n dda. Mae'r fuches hon yn adnabyddus ym myd gwartheg Coch Dyfnaint gan eu bod yn magu gwartheg mawr ac yn ennill gwobrau am eu gwartheg trawiadol. Fe fyddwn wrth fy modd yn magu fy ngwartheg fy hun i safon fel y rhain. Fy nod, trwy'r ymweliad hwn oedd cael gwybod rhagor am sut y

maent wedi magu'r fuches, sut y maent yn gorffen y gwartheg, sut y maent yn prisio eu cynnyrch a phroffidioldeb y siop fferm.

## 2. Trefn y Daith

**Diwrnod 1:** gyrru i Rydychen i'r Northmoor Meat Company a chyfarfod Fiona a James Florey. Taith o gwmpas y fferm a gweld sut y maent yn cynhyrchu eu blychau cig eidion premiwm o safon uchel. Gyrru i Yeovil i aros noson.

**Deilliannau dysgu allweddol a'r wybodaeth a gafwyd:** Cawsom daith lawn gwybodaeth o gwmpas fferm y teulu Florey lle maent yn lloea tua 80 o fuchod y flwyddyn ac yn gwerthu'r rhan fwyaf o'u cig eidion mewn blychau cig eidion. Maent yn diddyfnu'r lloeau pan fyddant tua 7 mis ac nid ydynt yn rhoi unrhyw ddwysfwyd iddyn nhw trwy gydol eu hoes. Maent yn torri ar y lloeau wrth iddyn nhw gael eu geni oherwydd bod eu teirw yn ddigorn (dewis bwriadol) mae'r rhan fwyaf o'u lloeau hefyd yn ddigorn. Rhoddir silwair i'r lloeau ar ôl eu diddyfnu a'u cadw mewn siediau mawr dros y gaeaf. Yn yr haf y maent yn lloea yn bennaf. Mae'r stoc yn mynd allan ar y glaswellt yn yr haf ac maent yn defnyddio system bori cylchdro.

Mae'r bustych yn cael eu gorffen dan 30 mis oed ac yn mynd i'r lladd-dy lleol. Maen nhw'n gweld nad oes raid iddyn nhw fod yn rhy dew ar gyfer blychau cig eidion. Mae'r cig yn sefyll am 28 diwrnod ac mae'r teulu Florey yn defnyddio ystafell storio oer gerllaw lle mae'r cigydd yn dod â'r cig yn ôl er mwyn ei roi mewn pecynnau gwactod a'i labelu gan y teulu. Maent wedi ystyried ei dorri eu hunain ond mae'r cigydd y maent yn ei ddefnyddio yn gwneud gwaith da iawn ac mae'n bwysig i'r cig edrych yn arbennig o dda. Mae'r blychau cig yn rhai a wnaed i'r diben felly mae cwsmeriaid yn gallu dewis y toriadau y mae arnyn nhw eu heisiau ac yna mae'r teulu Florey'n rhoi'r blwch at ei gilydd eu hunain. Maent yn cynnig y dewis hefyd o flwch bach, canolig neu fawr wedi ei bigo ymlaen llaw ac yna ychwanegu darnau ychwanegol ato. Maent yn wynebu'r risg y bydd pobl yn dewis ychydig bach o gig ond eu bod yn gorfod dal i dalu'r costau postio a phecynnu ar ben hynny, ond yn anaml y mae hynny'n digwydd. Mae'r archebion am y blychau cig yn dod trwodd i ap sydd â rhestr o'r stoc sydd ar gael sy'n cael ei ddiweddaru ar ôl pob archeb. Mae llawer o gwsmeriaid yn gwsmeriaid sy'n dychwelyd er bod busnes newydd bob amser trwy'r wefan, ac maent yn eu hanfon i bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Caiff y blychau eu harchebu ymlaen llaw gan y cwsmeriaid ac mae'n bwysig esbonio na fydd blychau cig yn cyrraedd y diwrnod wedyn gan y byddant yn cael eu hanfon pan fydd yr anifail yn barod a all gymryd rhai wythnosau. Y pecynnau a ddefnyddir yw 'Woolcool' sydd ag enw da am gadw pethau'n oer, a'r cwmni cludo a ddefnyddir yw DHL a oedd yn dda hefyd er eu bod yn argymell archebu dosbarthiad ar ddechrau'r wythnos waith. Roedd y bustych Dyfnaint Coch yn gwneud £2500 gros ar gyfartaledd cyn costau. Eu nod oedd gwneud £500 yn ychwanegol am bob anifail mewn cymhariaeth â'r hyn y byddent yn ei gael wrth ei werthu trwy'r farchnad.

Cadarnhaodd yr ymweliad hwn bod angen i mi ychwanegu gwerth at fy nghynnyrch cig eidion os wyf am farchnata'r blychau cig eidion yn llwyddiannus a gyda chostau ychwanegol lladd, cigydda, pecynnu a marchnata'r cig eidion, mae angen o leiaf £500 o gynnydd mewn cymhariaeth â gwerth yr anifail wedi ei orffen yn y farchnad. Mae gwefan yn hanfodol i

ehangu'r nifer o gwsmeriaid y gallwch eu cyrraedd. Nid oes marchnad fawr ar gyfer gwartheg stôr Dyfnaint Coch Rhuddem ond mae marchnad niche dda ar gyfer cig eidion traddodiadol wedi ei orffen ar laswellt. Mae'n dal yn destun trafod a oes mantais o ran blas mewn cig eidion wedi ei orffen ar laswellt yn unig mewn cymhariaeth â chig eidion sydd wedi ei orffen gan ddefnyddio ychydig o ddwysfwyd.

**Diwrnod 2:** Gyrru i Penzance a chyfarfod Bridget a Steve Clamp i weld buches Higher Trenowin a gweld sut y maent wedi gwneud i'r busnes siop fferm ffynnu, ac yna symud ymlaen i flychau cig eidion.

**Deilliannau dysgu allweddol a'r wybodaeth a gafwyd:**

Rhoddwyd taith dda iawn i ni o gwmpas Trenowin a gweld sut y maent yn lloea eu buches o 60 o fuchod yn y gaeaf. Maen nhw'n porthi eu gwartheg ar silwair a wneir ar y fferm, a thua 4 wythnos ar ôl lloea pan all eu llaeth brinhau maent yn rhoi'r buchod a'r lloeau i bori cêl mewn stribedi am ychydig oriau'r dydd. Torrir ar y lloeau pan fyddant yn hŷn gan filfeddyg wrth iddynt fagu teirw i'w defnyddio i fridio. Nid yw eu gwartheg yn ddigorn ac nid ydynt yn dewis y teirw y maent yn eu defnyddio am beidio a bod yn ddigorn gan eu bod yn credu ei fod yn lleihau'r gronfa enynnol iddynt ddewis tarw newydd ohono. Bydd y lloeau yn cael eu diddyfnu yn tua 7 mis oed a rhoddir ychydig o ddwysfwyd iddynt i'w cadw i fynd. Maen nhw hefyd yn cael dwysfwyd pan fyddant yn cael eu gorffen. Mae'r fuches yma yn gymharol ifanc gan mai dim ond tua 12 mlynedd yn ôl y cafodd ei chychwyn ac maent wedi gwneud cynnydd mawr yn y cyfnod hwnnw gyda llinell gref.

Roedd y siop fferm yn llwyddiannus ond roedden nhw wedi cael damwain ar y fferm ychydig flynyddoedd yn ôl ac wedi penderfynu torri yn ôl ychydig a gwneud blychau cig eidion yn lle hynny. Roedd pethau wedi eu trefnu'n dda yno gydag ystafell dorri ac oergell fawr i hongian y cig eidion. Bydd yr anifeiliaid ar ôl eu gorffen yn mynd i'r lladd-dy yn tua 24-30 mis ac maent yn cael eu cario yn ôl i'r fferm i hongian. Maen nhw'n cyflogi cigydd i ddod yno a thorri'r anifail ar ôl tua 28 diwrnod, ac mae'r cig yn cael ei becynnu a'i labelu. Mae'r rhan fwyaf o'r cig yn cael ei werthu mewn blychau cig eidion trwy eu gwefan, trwy enw da a hefyd rhestr e-bost sy'n mynd o gwmpas i rai sydd wedi prynu o'r blaen. Fe wnaed eu gwefan gan ffrind am ychydig iawn o gostau. Bydd unrhyw gig dros ben yn cael ei rewi a gellir ei brynu pan fydd y siop ar agor unwaith y mis.

Fe wnaeth yr ymweliad yma i mi feddwl am fanteision cael fy ystafell dorri fy hun ac oergell ddigon mawr i hongian y cig ynddi. Rwy'n hoffi'r syniad o reoli'r broses dorri fel fy mod yn sicrhau bod yr holl doriadau yn cyrraedd yn ôl ataf i a hefyd fel fy mod yn gallu cael fy nhoriadau arbenigol fy hun ar gael yn hytrach na chigydda pob anifail yn generig. Ond, ar y funud dim ond cychwyn ar flychau cig eidion ydw'i, rwy'n meddwl y bydd yn haws i mi gael y cig yn ôl wedi ei bacio yn barod. Mae hefyd yn llawer haws o ran rheolau iechyd a diogelwch os yw'r cig yn cyrraedd mewn pecynnau gwactod, ond mae cigydda gartref yn bendant yn rhywbeth i'w gadw mewn cof at y dyfodol.

**Diwrnod 3: Gyrru adref i Gymru**

## 3. Camau Nesaf

- Ar ôl ystyried y peth yn fanwl rwyf wedi penderfynu buddsoddi mewn gwefan i werthu blychau cig eidion gan fod y Northmoor Meat Company llwyddiannus wedi

argymell mai dyma’r ffordd orau i gyrraedd rhagor o gwsmeriaid. Rwyf wedi dod o hyd i rywun lleol i weithio gyda nhw ac rydym yn mynd i wneud gwefan gyda siop ar-lein yn ystod y misoedd nesaf yn barod i farchnata fy mustych ar ôl eu gorffen yr haf hwn.

- Rwy’n mynd i drosi hen stabl yn ystafell lle gallaf roi oergell fasnachol a chael ardal gydag ardystiad hylendid bwyd i bacio fy mlychau. Rwyf wedi llunio cynlluniau i drosi’r stabl.

- Fe wnaeth y drefn yn y Northmead Meat Company argraff fawr arnaf a hoffwn feddwl am orffen y gwartheg ar laswellt rywbryd yn y dyfodol. Rwy’n meddwl bod y defnyddiwr yn dod yn gynyddol ymwybodol o’r hyn y mae anifeiliaid yn ei gael ond nid yw ein system ar y fferm ar hyn o bryd wedi ei threfnu i dyfu digon o laswellt neu i wneud digon o silwair o safon fel na fyddai angen i’r stoc ifanc gael dwysfwyd dros y gaeaf. Mae gennyf ddiddordeb mewn pori cylchdro ac rwyf yn rhoi’r seilwaith yn ei le ar y fferm er mwyn ei weithredu, fel gwella’r ffensys a meddwl am y dŵr sydd ar gael.

- Rwyf wedi cofrestru ar y cwrs Meistr ar Borfa fel fy mod yn gallu dysgu rhagor am sut i ddefnyddio pori cylchdro ar ein fferm.

- Rwyf wedi edrych ar dyfu cae o gêl gaeaf nesaf i roi’r buchod arno ar ôl lloea. Gall y cyflenwad llaeth fod ychydig yn anodd gyda gwartheg Coch Dyfnaint ac rwy’n hoffi’r dull hwn o’i gynyddu’n fawr wrth i’r llo fod angen mwy a mwy o laeth.

Fy nghanfyddiadau o ran fy musnes yw fy mod yn meddwl y gall blychau cig eidion fod yn addas i’n dull ffermio a’n gwartheg Dyfnaint Coch Rhuddem, a gall fod yn broffidiol ac yn ffordd sy’n rhoi boddhad o ychwanegu gwerth at ein cynnyrch o safon uchel. Rwy’n edrych ymlaen at symud fy musnes ymlaen eleni gyda fy anifeiliaid cyntaf yn cael eu gorffen yn yr haf, ac mae gennyf weledigaeth lawer cliriach o sut i farchnata fy mlychau cig eidion. Mae’r cyfan yn ymwneud â gwerthu stori fy fferm trwy’r wefan, Instagram a Facebook a dweud wrth y cyhoedd ym Mhrydain sut yr ydym yn cynhyrchu rhywbeth gwych!

## 4. Negeseuon allweddol i’r diwydiant

1. Er mwyn cynhyrchu cig eidion wedi ei dyfu’n araf mae angen i ffermwyr gael eu cymell gan ei bod yn cymryd mwy o amser ac yn costio mwy na dim ond gwerthu anifeiliaid stôr. Mae angen i grantiau fod ar gael i ffermwyr allu defnyddio technegau fel pori cylchdro, ac mae angen i’w cynnyrch terfynol o gig eidion o safon gael ei gydnabod fel rhywbeth â gwerth ychwanegol.

2. Mae arnom angen gadael i’r cyhoedd wybod y gwahaniaethau rhwng cig eidion Prydeinig a chig wedi ei fewnforio. Roedd y ffermydd yr aethom ni iddyn nhw yn

dangos safonau lles anifeiliaid uchel ac ychydig o filltiroedd bwyd. Nid oes cymhariaeth rhwng bywydau gwartheg Prydain a gwartheg America yn benodol, o ran eu lles a'u heffaith ar yr amgylchedd. Petai pobl yn gweld sut y mae'r gwartheg ar y ddwy fferm yma y buom ni'n eu gweld yn cael eu cynhyrchu byddent yn cael eu hannog nad oes raid i gig eidion fod wedi ei ffermio'n ddwys ac y gellir ei wneud mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â'r amgylchedd.

3. Mae angen i'r cyhoedd ddeall yn well beth maen nhw'n dewis ei brynu, os yw'n gig eidion wedi ei dyfu mewn ffordd draddodiadol neu'n gig eidion cyfandirol wedi ei orffen yn gyflymach. Dylai fod premiwm dealledig ar y cig eidion traddodiadol sy'n tyfu'n araf a dylai'r cyhoedd ddeall y gwahaniaeth rhwng cig eidion sydd wedi ei borthi ar laswellt a chig eidion wedi ei borthi ar borfa oherwydd mae'r cyfan yn ddryslyd iawn. Dylai cig eidion ar borfa (lle mae'r anifail wedi cael glaswellt ar hyd ei oes) fod yn fwy o safon aur na'r cig eidion organig y mae cymaint o sôn amdano.

4. Mae angen symud tuag at fwyta cig eidion o safon yn hytrach na faint sy'n cael ei fwyta ac mae angen i ni wrthwynebu'r mudiad llysieuol a figan sy'n cynyddu. Ceir llawer o wybodaeth anghywir am y ffordd y mae cig eidion Prydain yn cael ei gynhyrchu ac mae gwartheg Prydain yn cael y bai dro ar ôl tro am gynhesu byd-eang tra bydd pobl yn gyfleus yn anghofio'r holl ffactorau eraill sy'n effeithio arno. Mae'r ffermydd y buom ni'n ymweld â nhw yn enghraifft o bolisïau amgylcheddol rhagorol a dulliau ffermio traddodiadol yn dod at ei gilydd i greu cynnyrch o safon uchel.

5. Mae angen i ffermwyr ryngweithio mwy â'r cyhoedd i hyrwyddo ffermio gwych ym Mhrydain. Mae angen i ffermydd bach werthu eu stori fel nad yw ffermio'n cael enw drwg fel cyfrannwr mawr at gynhesu byd-eang ac y gall y cyhoedd weld yr holl les y mae ffermwyr yn ei wneud i ofalu am y dirwedd a'r amgylchedd, a'r angerdd sy'n mynd i bob cynnyrch. Mae diogelwch bwyd yn gynyddol bwysig ac mae arnom angen i'r cyhoedd ym Mhrydain gefnogi bwyd wedi ei dyfu gartref.

6. Rwy'n meddwl hefyd bod angen i'r diwydiant fod yn ymwybodol o'r potensial mawr i ddenu merched o gefndiroedd heblaw ffermio i'r sector amaethyddol. Fel merch o gefndir nad yw'n amaethyddol gallaf ddweud mai mynd i ffermio oedd un o'r penderfyniadau gorau a wnes i erioed, ond daeth y teimlad o foddhad llwyr yn fy ngyrfa ar ôl i mi ddod o hyd i fy niche bach fy hun ar y fferm gyda gwartheg traddodiadol a blychau cig. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at symud ymlaen at ran nesaf fy nhaith amaethyddol pan fyddaf yn dechrau gwerthu fy nghynnyrch!